# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Dr Catherine Jones

### Uwch Ddarlithydd,
### Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd

Fy enw i yw Catherine Jones a fi yw Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

Uchafbwynt personol i fi a'm cydweithwraig Sue Leekham yn sgil gweithio gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol eleni yw ein gwaith gyda nhw ar y Parti Pen-blwydd.

Ffilm yw'r Parti Pen-blwydd a ddatblygon ni gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol rheng flaen i ddeall arwyddion awtistiaeth yn well, ac mae'n bwysig iawn nodi bod y ffilm yma wedi'i hategu gan dystiolaeth ymchwil.

Mae'r ffilm yn defnyddio achlysur parti pen-blwydd plentyn lle mae tri phlentyn awtistig yn mynychu er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yn well pa arwyddion awtistiaeth i chwilio amdanyn nhw, ond hefyd i'w helpu i ddeall y ffyrdd amrywiol mae'r arwyddion yn gallu ymddangos mewn plant gwahanol.

Cafodd y ffilm ei datblygu yng Nghymru ar gyfer pobl yng Nghymru ond mae cyrraedd y ffilm wedi bod yn syndod mawr i ni, ac mae tua 150 o geisiadau i gael copi ohoni wedi dod i law o bob cwr o'r byd, o 15 gwlad wahanol ac rydyn ni wedi cyfieithu'r ffilm i 4 iaith Ewropeaidd wahanol felly mae wedi rhagori ar ein disgwyliadau. Mae wedi profi mor bwysig mae'r ffilm yma wedi bod i bobl a chafodd y cyflawniad hwnnw ei gydnabod gan Brifysgol Caerdydd a roddodd wobr effaith i'r ddwy ohonon ni yng Nghanolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru a hefyd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ac rydyn ni'n falch dros ben o'r wobr honno.

Gofynnwyd hefyd i fi ddweud gair am sut mae'r gwaith gyda'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi helpu i greu newid ym mywydau'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw ac roeddwn i'n meddwl mai'r ffordd orau o ddangos hynny oedd drwy ddefnyddio dyfyniad neu adborth gan riant yng Nghymru sydd wedi gweld ein fideo. Maen nhw'n dweud, "Ga i ddweud bod eich fideo yn grêt; dyma'r tro cyntaf mewn dwy flynedd a hanner i fi ddod o hyd i rywbeth sy'n gyfoes o'r diwedd ac yn agored am fathau o ymddygiad posibl ac yn bwysicach na dim, mae'n symud i ffwrdd o ddefnyddio stereoteipiau.

Mae fy mab yn dangos llawer o'r mathau o ymddygiad sydd yn eich fideo ond eto i gyd, mae gwahanol therapyddion a seicolegwyr wedi dweud wrtha i lawer o weithiau, 'Ah, wel, edrychodd e arna i a gwneud cyswllt llygiad, mae'n iawn... galla i ei dynnu oddi ar y rhestr aros os liciwch chi', neu 'dyw e ddim yn hoffi rhannu – materion ymddygiad yw'r rheiny – mae'n rhyngweithio gyda fi'. Rwy' wir yn gobeithio bod eich fideo gwych yn cael ei anfon at bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd ag ymdrin â phlant sydd ar y sbectrwm neu allai fod ar y sbectrwm. Mae'n ffilm dda – mae'n syml ac yn barchus ac mae'n amlwg bod gwaith meddwl wedi mynd i mewn iddi a gallai gael ei hanfon heb unrhyw gost i gynghorau neu'r llywodraeth ond hefyd gallai fod o gymorth i blentyn sy'n haeddu cael yr holl help sydd ei angen arno mor gynnar â phosibl."

Hoffwn orffen drwy ddiolch i'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud gyda'n gilydd – maen nhw wedi helpu i ddosbarthu ein hymchwil i'r bobl y mae angen iddyn nhw ei gweld, ac rydyn ni'n falch dros ben o fod wedi gallu cydweithio, felly diolch yn fawr iawn.